EPT-12-02 (min)

# PWYLLGOR YR AMGYLCHEDD, CYNLLUNIO A THRAFNIDIAETH

| | |
|---|---|
| Dyddiad: | Dydd Mercher 3 Gorffennaf 2002 |
| Amser: | 2:00 pm hyd 5:30 pm |
| Lleoliad: | Ystafell Bwyllgora 3, Adeilad Cynulliad Cenedlaethol Cymru |

**Yn Bresennol:**

***Aelodau'r Pwyllgor:***

| | |
|---|---|
| Richard Edwards, Cadeirydd | Preseli Sir Benfro |
| Eleanor Burnham | Gogledd Cymru |
| David Davies | Mynwy |
| Janet Davies | Gorllewin De Cymru |
| Brian Hancock | Islwyn |
| Sue Essex, Gweinidog dros yr Amgylchedd | Gogledd Caerdydd |
| Val Lloyd | Dwyrain Abertawe |
| Tom Middlehurst | Alun a Glannau Dyfrdwy |
| Karen Sinclair | De Clwyd |
| Phil Williams | Dwyrain De Cymru |

***Cyrff Allanol:***

| | |
|---|---|
| Y Cyng Evan Morgan | Aelod, Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog |

| | |
|---|---|
| Chris Gledhill | Ysgrifennydd, Gr•p Cymru o Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol a Gr•p Swyddogion Parciau Cenedlaethol Cymru (Prif Weithredwr Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog) |
| Iwan Huws | Prif Weithredwr Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri |
| Nic Wheeler | Prif Weithredwr Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro |
| Dr Alun Gee | Cyfarwyddwr Dros Dro, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru |
| Andrew Harvey | Rheolwr Cynllunio a Pherfformiad, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru |
| John Lloyd Jones | Cadeirydd, Cyngor Cefn Gwlad Cymru |
| Roger Thomas | Prif Weithredwr, Cyngor Cefn Gwlad Cymru |
| ***Ysgrifenyddiaeth:*** | |
| Siwan Davies | Clerc Pwyllgor |
| Vaughan Watkin | Dirprwy Glerc Pwyllgor |

**Sylwadau Agoriadol y Cadeirydd**

0.1 Croesawyd yr Aelodau a phawb oedd yn bresennol i'r cyfarfod gan y Cadeirydd, ac estynnwyd croeso cynnes i Karen Sinclair ar ei dychweliad i'r Cynulliad

**Eitem 1: Ymddiheuriadau, dirprwyon a datganiadau o fudd**

1.1 Datganwyd y buddiannau canlynol o dan Reol Sefydlog 4.5:

- Brian Hancock – cyn ei ethol i'r Cynulliad Cenedlaethol bu'n gweithio fel ymgynghorydd Iechyd, Diogelwch ac Amgylcheddol;
- Val Lloyd – Aelod o Gyngor Dinas a Sir Abertawe.

**Rheoliad gwastraff**

2. Tynnodd y Gweinidog sylw'r Pwyllgor at Hysbysiad yn y Wasg a gyhoeddwyd ganddi yn croesawu'r effaith yr oedd y £2 miliwn o gyllid ychwanegol i Asiantaeth yr Amgylchedd yn ei gael ar yr ymdrech i gosbi gweithredwyr safleoedd gwastraff anghyfreithlon a gwaredu sbwriel anghyfreithlon.

**Eitem 2: Rhaglenni Gwaith Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a Pharciau Cenedlaethol Cymru**

EPT-12-02 (p 1) - Cyngor Cefn Gwlad Cymru: Cynllun Corfforaethol 2003-06

EPT-12-02 (p 2) - Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru: Adolygiad ac Edrych Ymlaen

EPT-12-02 (p 3) - Parciau Cenedlaethol Cymru: Rhaglen Gorfforaethol 2003-06

2.1 Croesawodd y Cadeirydd y cynrychiolwyr o Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a Chyngor Cefn Gwlad Cymru (CCGC) i'r sesiwn archwilio blynyddol. Cafwyd cyflwyniad byr gan bob corff ar y pynciau a amlinellwyd yn eu papurau. Talodd John Lloyd Jones deyrnged i waith Paul Loveluck, cyn Brif Weithredwr CCGC, a ymddeolodd yn ystod y flwyddyn adrodd.

2.2 Y canlynol oedd y prif feysydd archwilio i berfformiad y cyrff unigol:

**Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol**

- Prif gyflawniadau – dosbarthodd y Parciau Cenedlaethol gopi o'u dogfen 'Ceisiadau Grant' ar gyfer y rownd gyllidebol nesaf, gan dynnu sylw at yr hyn a gyflawnwyd ganddynt yn y flwyddyn flaenorol, nad oedd wedi eu cynnwys yn y papur. Canolbwyntiodd yr holi ar y modd yr oedd eu perfformiad yn cael ei fesur a'i feincnodi o'i gymharu â'r awdurdodau cynllunio lleol eraill yng Nghymru ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol Lloegr;

- Effeithlonrwydd – roedd gan yr Aelodau ddiddordeb yn y sgôp i wella'r modd y cyflwynir gwasanaethau ac i wneud arbedion effeithlonrwydd, yn enwedig o ystyried maint y ceisiadau am adnoddau ychwanegol, ac roeddent yn awyddus i'r materion hyn gael sylw yn yr adolygiad bob pum mlynedd o Barciau Cenedlaethol Cymru sydd i gael ei gynnal. Nodwyd bod y Parciau Cenedlaethol yn atebol i 'Werth Gorau';

- Datblygu cynaliadwy – tynnodd y Pwyllgor sylw at y diffyg pwyslais a roddwyd yn y papur ar y gwaith yr oedd y Parciau Cenedlaethol yn ei wneud i hyrwyddo datblygu

cynaliadwy, yn enwedig o safbwynt y Gronfa Datblygu Amgylcheddol;

- Cynllunio – edrychodd yr Aelodau ar y gwrthdaro posibl yn rôl y Parciau Cenedlaethol fel awdurdodau cynllunio a gwarcheidwaid yr amgylchedd a'r tirwedd gyda golwg ar geisiadau cynllunio a oedd o fewn Parc Cenedlaethol. Byddai Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn ysgrifennu at David Davies ynghylch y pryderon penodol a godwyd;

- Ceisiadau – bu'r Aelodau'n cwestiynu maint y cais i brynu adeilad newydd ar gyfer eu pencadlys a nodwyd bod y Gweinidog yn gweithio ar hyn o bryd gyda'r Parc Cenedlaethol i negodi prydles yr eiddo. Mynegwyd syndod hefyd fod Parc Bannau Brycheiniog yn gwneud cais am gyllid ychwanegol i dalu costau ei ymchwiliad i'w Gynllun Datblygu Unedol, er bod Eryri ac Arfordir Sir Benfro wedi gallu talu'r gost heb adnoddau ychwanegol. Cefnogwyd cynnig Eryri i ailddatblygu'r adeilad ar gopa'r Wyddfa.

**Asiantaeth yr Amgylchedd**

- Gweledigaeth – bu'r Aelodau'n holi pa gamau y byddai'r Asiantaeth yn eu cymryd 'i fod yn llwyddiannus' yn y modd a amlinellwyd yn y papur, ac ystyriwyd yr anawsterau y gallai'r Asiantaeth eu hwynebu wrth weithio'n adeiladol â diwydiant tra ar yr un pryd yn cynnal hyder y cyhoedd;

- Bod yn agored a thryloyw – canolbwyntiodd y cwestiynau ar y camau a gymerwyd i weithredu argymhelliad ymchwiliad Nantygwyddon y dylai'r Asiantaeth fod yn agored a thryloyw i'r graddau a ganiateid gan y gyfraith. Derbyniodd yr Asiantaeth egwyddor yr argymhelliad, ond byddai angen cyngor pellach gan Lywodraeth y Cynulliad Cenedlaethol ar agweddau megis diffiniad o 'graddau a ganiateid';

- Staffio – holodd yr Aelodau a oedd staff yr Asiantaeth yn derbyn cydnabyddiaeth ddigonol am eu sgiliau arbenigol, gan nodi fod cyflogau staff wedi eu pennu ar 'ganolswm y farchnad'.

- Atal llifogydd – bu'r Aelodau yn ystyried natur ymchwil yr Asiantaeth i newid yn yr hinsawdd a fyddai'n sail i'w rhaglen atal llifogydd yn y dyfodol.

**Cyngor Cefn Gwlad Cymru (CCGC)**

- Prif gyflawniadau – nododd yr Aelodau fod y targedau a gyflawnwyd yn rhannol yn ymwneud â hysbysu ynghylch safleoedd o ddiddordeb gwyddonol arbennig (SoDdGa) a chytundebau'r cynllun Tir Gofal, ac roedd yn ganlyniad i fethu mynd at y tir yn ystod yr achosion o glwy'r traed a genau;

- Gweledigaeth – bu'r Pwyllgor yn ystyried y diffiniad o 'nodweddion tirwedd nodedig' ac edrychodd ar gyfraniad CCGC tuag at gynyddu bioamrywiaeth y tirwedd trwy ei waith ar Gynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol (CGBLl) a'r Cynlluniau Gweithredu Rhywogaethau;

- Effeithlonrwydd – gofynnodd yr Aelodau am fesur o'r arbedion effeithlonrwydd a nodwyd yng nghynllun effeithlonrwydd pum mlynedd CCGC ac a fyddai'n cael eu hailfuddsoddi yn seilwaith CCGC. Byddai manylion pellach yn cael eu dosbarthu i'r Aelodau pan fyddant ar gael;

- Addysg i'r cyhoedd – bu'r Aelodau yn holi ynghylch maint y cais i 'gyfleu'r neges' a bu'n ystyried y sgôp ar gyfer arbedion yng ngweithgareddau craidd y dyfodol pe bai'r buddsoddiad hwn yn arwain at newidiadau positif yn agwedd y cyhoedd tuag at gadwraeth;

- Cynllunio – mewn ymateb i ymholiad, eglurodd CCGC na allai awdurdodau cynllunio lleol ganiatáu cais i ddatblygu ar safleoedd a amddiffynnir oni bai fod modd dangos y byddai hynny 'er budd amlwg i'r cyhoedd'.

- Tir Gofal – bu'r Aelodau yn holi ynghylch maint yr ychwanegedd yng nghyllid Tir Gofal, a ddôi o gyllideb amaeth y Cynulliad Cenedlaethol.

**Materion cyffredinol**

2.2 Bu'r Pwyllgor hefyd yn craffu ar y meysydd trawsbynciol canlynol:

- Gwella darpariaeth gwasanaethau – roedd y Pwyllgor wedi gwahodd pob mudiad i nodi'r sgôp ar gyfer gwella darpariaeth gwasanaethau ac i wneud arbedion effeithlonrwydd. Bu'r Aelodau'n ystyried y sgôp ar gyfer cyflawni hyn trwy resymoli nifer y cyrff sy'n gysylltiedig â chadwraeth cefn gwlad a rheoleiddio amgylcheddol, heb gyfyngu ar eu gallu i fod yn agored a thryloyw wrth wneud penderfyniadau. Gofynnodd y Pwyllgor i'r cyrff baratoi adroddiad ar y cyd erbyn y sesiwn archwilio nesaf a fyddai'n amlinellu'r berthynas rhwng y cyrff ac a fyddai'n nodi unrhyw feysydd polisi neu weithredu sy'n gorgyffwrdd;

- Cyfle Cyfartal – tynnodd yr Aelodau sylw at y diffyg pwyslais yn y papurau ar y gwaith a oedd yn cael ei wneud i hyrwyddo cyfle cyfartal, yn enwedig meithrin cysylltiadau â grwpiau amrywiol.

2.3 Cofnododd y Cadeirydd ddiolchiadau'r Pwyllgor i bawb a oedd yn bresennol.

**Eitem 3: Cofnodion cyfarfod 19 Mehefin 2002** - EPT-11-02 (min)

3.1 Derbyniodd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Mehefin.

**Dyddiad y cyfarfod nesaf**

4.1 Cynhelir cyfarfod nesaf y Pwyllgor am 2.00 pm dydd Mercher 17 Gorffennaf yn Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Gorffennaf 2002**